**Gweithgor Amrywio Incwm**

**10 Rhagfyr 2025**

Aelodau yn Bresennol:
Y Cynghorydd D Clements, Dr M Havard, Mrs S Hoss a Dr R Plummer.

Swyddogion yn Bresennol:
Rebecka Blenntoft, Catrin Evans, Georgia Jones (Cofnodion), Tegryn Jones, Abi Marriott a James Parkin.

[Ar-lein 13:00 – 14:15]

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
   Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd C George.

2. **Cofnodion**
   Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2025.

   **Nodwyd.**

3. **Diweddariad ar y Mesurau Arbed Costau Heblaw am Staff**
   Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y camau a gymerwyd o ran y mesurau arbed costau heblaw am gostau staff, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y gweithdy ar yr 2ail o Ebrill 2025.

   Er mwyn asesu lefel y camau ymlaen a gymerwyd gan yr Awdurdod, awgrymodd Aelod bod ffigur sy’n dangos holl effaith pob un o’r mesurau arbed costau a gymerwyd hyd yn hyn yn cael ei gynnwys mewn papurau yn y dyfodol. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr, er na fyddai gan rai mesurau effaith uniongyrchol nac uniongyrchol, y byddai’n rhestru'r arbedion costau oedd wedi’u gwneud. Roedd yr Aelodau yn cydnabod y manteision o fuddsoddi i arbed yn y tymor hir, ac awgrymwyd bod y mater hwn yn cael ei archwilio ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

   Dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wrthi yn dadansoddi cyllidebau’r gwahanol adrannau, a bod y deiliaid cyllideb i glustnodi unrhyw gyfleoedd pellach i arbed costau. Ychwanegodd bod toriadau dewisol posibl o 10% ar bob cyllideb wedi'i awgrymu i'r Tîm o Uwch Arweinwyr fel opsiwn, ond bod yr awgrym hwn wedi derbyn adborth cymysg.

   Gofynnodd Aelod a fyddai’r tâl mynediad i Gastell Caeriw ac i Gastell Henllys yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant. Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Adfer Byd Natur a Thwristiaeth nad oedd yr Awdurdod, yn draddodiadol, wedi cynyddu’r tâl mynediad yn flynyddol ond yn hytrach wedi

meincnodi’r prisiau yn ôl prisiau atyniadau cymharol eraill. Ychwanegodd bod yr Awdurdod wedi bod yn ymwybodol o beidio â chodi prisiau i’r graddau na fyddai cwsmeriaid yn gallu cael mynediad i'r safleoedd hyn, gan y byddai hynny yn cael effaith negyddol ar wariant eilaidd.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y modd o gyflwyno’r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau eraill yr Awdurdod am y camau ymlaen a gymerwyd gan y Gweithgor. Cytunwyd y dylid trefnu gweithdy i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau ac i geisio syniadau eraill.

Mewn ymateb i ymholiad gan Aelod, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Swyddogion o’r farn bod y Gweithgor Amrywio Incwm yn werthfawr gan fod y Gweithgor yn rhoi lefel o ddisgyblaeth oedd yn sbarduno cymryd camau ymlaen ac yn rhoi cyfle i’r Swyddogion drafod materion mewn amgylchedd llai ffurfiol.

**Nodwyd.**

**4. Diweddariad ar Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro**

Roedd y Rheolwr Cyllid Allanol wedi rhoi cyflwyniad oedd yn rhoi trosolwg o berfformiad Ymddiriedolaeth Elusennol Arfordir Penfro ar godi arian ar hyn o bryd. Roedd y cyflwyniad yn rhoi amlinelliad o waith yr Ymddiriedolaeth ar y prif brosiectau a ariennir, ac yn rhoi’r cyd-destun ar yr amgylchedd ehangach o godi arian, ac yn nodi’r cyfeiriad strategol ar gyfer codi arian dros y 12-14 mis nesaf.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr bod y tîm wrthi yn creu Strategaeth Codi Arian, ac y byddai’n cysylltu â staff yr Awdurdod i ddeall eu hanghenion fel rhan o’r broses. Ychwanegodd bod y tîm yn barod i roi cyflwyniad yng Nghyfarfod nesaf Pob Aelod o’r Staff i ennyn ymwybyddiaeth ymhlith y staff o’r modd i gael grantiau, ac i annog dull mwy rhagweithiol o godi arian ar draws yr Awdurdod.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod yr Ymddiriedolaeth Elusennol wedi'i sefydlu i fanteisio ar gyfleoedd na fyddai ar gael i'r Awdurdod fel arall. Ychwanegodd y gallai'r Ymddiriedolaeth gynorthwyo’r Awdurdod i gael grantiau allai fod yn ddigon i dalu am y costau staff presennol.

**Nodwyd.**